



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

LLAWLYFR MODWL

ECAD6020C

Dyfnhau Arfer: ADY

BA (Anrhydedd) Addysg Gynradd gyda Statws Athro Cymwysedig

Lefel 6

20 credyd

Yr Athrofa
2025-2026

Ailddilyswyd Hydref 2023 i dderbyn y myfyrwyr cyntaf ym mis Medi 2024

1. Manylion Cyswilt

Arweinydd y Modwl: Laura Emanuel laura.emanuel@uwtsd.ac.uk

2. Ein Disgwyliadau

Gobeithio y byddwch yn mwynhau'r modwl a'r rhaglen. Rydym yma i'ch helpu.

Dylech:

- Wneud defnydd da o gyfleusterau ac adnoddau'r Brifysgol
- Mynychu sesiynau a chymryd rhan ynddynt
- Ymddwyn yn gyfrifol
- Cyflwyno aseiniadau erbyn y dyddiad terfyn
- Ymroi a chymryd rhan ym mhob sesiwn

Darllenwch [Reoliadau'r Brifysgol i Fyfyrrwyr](#) a Pholisi Ymgysylltu'r Athrofa.

3. Amcanion a Deilliannau Dysgu

AMCAN(ION)

Rhoi dealltwriaeth ddyfnach i ddarpar athrawon o gynnydd wrth ddysgu a amlinellir yn fframwaith y Cwricwlwm i Gymru a gwybodaeth am theori, ymchwil ac arfer da i'w galluogi i arwain dysgu'n effeithiol a chydweithio gyda chydweithwyr yn y maes hwn.

DEILLIANNAU DYSGU

Ar ôl cwblhau'r modwl hwn yn llwyddiannus, dylai'r darpar athrawon allu:

- adnabod rôl a chyfrifoldebau ymarferydd seiliedig ar dystiolaeth;
- dangos dealltwriaeth ddyfnach o natur gymhleth yr amgylchedd dysgu er mwyn darparu dysgu ac addysgu effeithiol;
- sicrhau dealltwriaeth o arfer trawsffurfiol trwy werthuso eu harferion addysgegol eu hunain mewn cydweithrediad.

CYNNWYS DANGOSOL

- Archwilio'r sgiliau sydd eu hangen i gynllunio, cyflwyno a gwerthuso profiadau dysgu creadigol ac arloesol sy'n hwyluso cynnydd disgyblion drwy'r Maes(au) Dysgu a Phrofiad.
- Cyfle i archwilio'n feirniadol Anghenion Dysgu Ychwanegol; rôl y Cydlynnydd ADY, dulliau ysgol gyfan o wella addysgu a dysgu yn ogystal â chynllunio cydweithredol, gwerthuso, myfyrio a thrawsnewid.
- Integreiddio agweddau allweddol fframwaith y Cwricwlwm i Gymru e.e. sgiliau hanfodol a sgiliau trawsgwricwlaidd i'r Maes(au) Dysgu a Phrofiad.
- Dealltwriaeth ddyfnach o wybodaeth cynnwys pedagogegol,
- Cynnig cyfleoedd i gysylltu a chydweithio ag ysgolion Partneriaeth ac asiantaethau eraill i ddyfnhau gwybodaeth ymarferol/cymhwysol ac i greu a chyfiawnhau pedagogegau arloesol o fewn maes arbenigol.

4. Ymagweddau Ymchwil

Ar draws y rhaglen BA, mae gwaith Orchard a Winch (2015)¹ wedi'i addasu a'i grynhoi'n bedair ymagwedd ymchwil. Dangosir y rhain yn y tabl isod gydag enghreifftiau o wybodaeth, sgiliau, dealltwriaethau ac ymddygiadau sy'n amlygu'r ymagweddau:

Ymagwedd	Gwybodaeth, sgiliau, dealltwriaethau ac ymddygiadau	YY
<i>Bod yn sgeptigol / amheugar</i>	Deall tystiolaeth empirig mewn maes dadleuol: Bod yn ymwybodol o'r gyrwyr gwleidyddol, economaidd a chymdeithasol o blaid 'tystiolaeth', a goblygiadau 'tystiolaeth'.	
<i>Bod yn foesegol</i>	Deall sylfaen foesegol ymholiad mewn gweithle cymhleth: - Gwybod egwyddorion moesegol ymchwil; - Deall ymagweddu (positionality) o fewn ymchwil; - Adnabod eu credoau a'u tybiaethau eu hunain am y byd.	
<i>Bod yn ymchwilydd medrus</i>	Deall egwyddorion ymchwil gwyddorau cymdeithasol a gwybod y gwahanol fathau o ddulliau a ddefnyddir a pham: - Deall dulliau ansoddol a natur/statws canfyddiadau; - Deall dulliau meintiol a natur/statws canfyddiadau; - Deall dyluniadau pragmataidd. Deall sut i lunio dadl yn seiliedig ar dystiolaeth a gwarant mewn ymchwil addysgol: - Defnyddio sgiliau darllen beirniadol; - Meithrin ymagwedd amheugar at 'dystiolaeth'. Gwerthfawrogi'n feirniadol faint o gymorth a all fodoli neu beidio ar gyfer damcaniaethau poblogaidd a dylanwadol mewn meysydd fel datblygiad plant a natur dysgu: - Meithrin ymagwedd amheugar at 'arloesi' (polisi ac arfer) neu'r 'peth mawr nesaf'. Deall sut i gymhwyso tystiolaeth empirig yn eu hystafelloedd dosbarth a gwerthuso ei heffeithiolrwydd: - Bod yn glir ynglŷn â'r hyn a fwriedir a pham; - Diffinio'r paramedrau ar gyfer gwerthuso effeithiolrwydd.	
<i>Bod yn rhan o broffesiwn sy'n ymholi</i>	Cyfrannu at gymuned o ymarferwyr ymholgar: - Gwybod pa un ai i rannu deilliannau ymholiad dosbarth, pryd a sut; - Cyfrannu'n rhagweithiol i ystod o gynulleidfaoedd; - Mynd i'r afael yn weithredol â'r ymholiad a chanfyddiadau pobl eraill.	

¹ Orchard J. & Winch C. (2015) *Philosophical Perspectives on Education Policy. What training do teachers need? Why theory is necessary to good teaching.* IMPACT no.22

5. Gwybodaeth Asesu

DYRANIAD AMSER ASTUDIO

Mae 30 o oriau addysgu wedi'u hamserlennu ar gyfer y modwl hwn.

ASESU

Elfen Asesu 1

☐ Arholiad ysgrifenedig ☒ Gwaith cwrs ☐ Ymarferol

Dull asesu	Maint	Pwysoliad
Cyfnodolyn	1375 o eiriau 23/2/2026	50%

Elfen Asesu 2

☐ Arholiad ysgrifenedig ☒ Gwaith cwrs ☐ Ymarferol

Dull asesu	Maint	Pwysoliad
Cyflwyniad unigol (recordiad)	10 munud 23/2/2026	50%

CRYNODEB O'R ASESIAD

Math o weithgaredd	Canran
Arholiad ysgrifenedig	
Gwaith cwrs	100% (50 + 50)
Ymarferol	
CYFANSWM	100%

6. Tasgau Asesu a Chanllawiau

Gweler y Fanyleb Asesu ar gyfer y modwl hwn sydd i'w gweld ar Moodle o dan "Gwybodaeth Asesu".

7. RHESTR DDARLLEN DDANGOSOL

RHESTR DDARLLEN DDANGOSOL

Module Code	ECAD6018	
Module Title	Dyfnhau Arfer: ADY	
Classification	Reading List entry	Electronic*
Essential	Welsh Government (2021) <i>The Additional Learning Needs Code for Wales</i> Cardiff: WG. Available at: 220622-the-additional-learning-needs-code-for-wales-2021.pdf (gov.wales)	☒
Essential	ESTYN (2018) <i>Tracking progress to support pupils additional learning needs</i> . Cardiff, Crown Copyright. Available at: https://www.estyn.gov.wales/effective-practice/tracking-progress-support-pupils-additional-learning-needs	☒
Further	Peer, L. and Reid, G. (2021) <i>Special educational needs: a guide for inclusive practice</i> . Third edition. Edited by L. Peer and G. Reid. London: SAGE Publications.	☐
Essential	Welsh Government (2021) <i>An introduction to the new additional learning needs system in Wales</i> . Cardiff: Welsh Government. Available at: https://resources.hwb.gov.wales/VTC/ALN+L1/story.html	☒
Further	Bianchi-Muir, N. (2020) 'Martin-Denham, S. & Watts, S. (2019) <i>The SENCo Handbook: leading provision and practice</i> . London: Corwin', <i>British Journal of Special Education</i> , pp. 125–126. Available at: https://doi.org/10.1111/1467-8578.12303 .	☒
Further	British journal of special education. (1997) Stratford upon Avon: National Council for Special Education.	☒
Further	Jones, F., Jones, K. and Szwed, C. (2001) <i>The SENCO as teacher and manager: a guide for practitioners and trainers</i> . London: David Fulton.	☐
Further	Thompson, J. (2010) <i>The essential guide to understanding special educational needs</i> . 1st ed. Harlow, England ;: Longman Pearson.	☒
Further	Nye, E. et al. (2016) 'Classroom behaviour management strategies in response to problematic behaviours of primary school children with special educational needs: views of special educational needs	☒

	coordinators', <i>Emotional and behavioural difficulties</i> , 21(1), pp. 43–60. Available at: https://doi.org/10.1080/13632752.2015.1120048 .	
Further	Smith, A. (2022) 'The experiences of new primary school special educational needs coordinators: presenting the SENCO voice through concept-drawing and personal narratives', <i>Support for learning</i> , 37(1), pp. 91–107. Available at: https://doi.org/10.1111/1467-9604.12397 .	☒
Further	Swansea Council (2022) ALN – Professionals who can help. Available at https://www.swansea.gov.uk/article/3295/ALN---Professionals-who-can-help	☒
Further	Pearson, S. (2016), <i>Rethinking Children and Inclusive Education. Opportunities and Complexities</i> . London: Bloomsbury.	☒
Further	Choudry, S. (2021) <i>Equitable Education: what everyone working in education should know about closing the attainment gap for all pupils</i> . St Albans: Critical Publishing.	☒
Further	Richards, G. and Armstrong, F. (eds) (2016), <i>Teaching and Learning in Diverse and Inclusive Classrooms: Key Issues for New Teachers</i> . Second Edition. London: Routledge.	☒
Further	Rix, J., Walsh, C., Parry, J. and Kumrai, R. (2010), <i>Equality, Participation and Inclusion</i> . Second Edition: London Routledge.	☒